## DARPARU GWASANAETH

### Prif ffocws

## DADANSODDI AC YMCHWIL

### Gofynion goblygedig

Sefydlu ffeithiau sylfaenol mewn sefyllfaoedd sy’n gofyn am ragor o ymchwil a hysbysu eraill os oes angen.

Dansoddi data neu wybodaeth arferol gan ddefnyddio gweithdrefnau sydd wedi’u gosod o flaen llaw a chasglu gwybodaeth o ffynonellau safonol; ac angen gweithio’n gywir er mwyn cwblhau’r dasg yn union fel y’i pennwyd.

Adnabod dull priodol sy’n bodoli ar gyfer dadansoddi neu ymchwilio yn ôl y data a’r amcanion; adnabod a dehongli tueddiadau neu batrymau mewn data; a dynodi neu ddod o hyd i wybodaeth ychwanegol a all fod o gymorth i’r ymchwiliad wrth i’r dadansoddi fynd rhagddo.

### Prif ffocws

Dadansoddi neu ymchwilio i syniadau cymhleth, cysyniadau neu ddata helaeth o agweddau gwahanol; penderfynu sut i gymhwyso methodolegau sy’n bodoli yn ôl y cyd-destun, yr amcanion a’r disgwyliadau cyffredinol; a dynodi’r berthynas rhwng ffactorau cymhleth, rhyngddibynnol.

### Ffocws eilaidd

Yn achlysurol, dynodi cwestiwn ymchwil o fewn cyd-destun penodol; cynhyrchu syniadau gwreiddiol i adeiladu ar gysyniadau sy’n bodoli; cynhyrchu cysyniadau a methodolegau newydd; a datblygu llwybrau ymchwil newydd.

## GOFYNION SYNHWYRAIDD A CHORFFOROL

Ymgymryd â thasgau ar lefel a fyddai’n gofyn naill ai am ddysgu rhai dulliau penodol neu a fyddai’n cynnwys ymdrech corfforol cymedrol.
**NEU**
Ymgymryd â thasgau sy’n gofyn naill am feistrolaeth o amrediad o dechnegau synhwyraidd neu gorfforol, canolbwyntio i gyd-drefnu gwahanol synhwyrau neu drachywiredd wrth ddefnyddio’r sgiliau synhwyraidd hyn, neu sy’n cynnwys ymdrech corfforol sylweddol.

## AMGYLCHEDD(R)(Ar)Docw LoLRwCH